Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

# Dyfarniad Lefel 3 mewn Goruchwylio Cymorth Cyntaf ar gyfer Dysgu Ar-lein Iechyd Meddwl (Rhan Amser)

Mae problemau iechyd meddwl yn y gweithle yn bodoli ac yn effeithio ar bob unigolyn. Mae busnesau nawr, yn fwy nag erioed, yn cael eu hannog i gymryd perchnogaeth o les cyflogeion a gallwn eich helpu i gyflawni hyn.

Mae'r cwrs yn cwmpasu cynnwys y cyrsiau Lefel 1 a Lefel 2 Cymorth Cyntaf ar gyfer Iechyd Meddwl ac yn ymgorffori'r cynllun gweithredu cymorth cyntaf ar gyfer iechyd meddwl a sut i roi diwylliant iechyd meddwl cadarnhaol ar waith yn y gweithle. Bydd dysgwyr yn ennill y wybodaeth i nodi pryd y gall fod gan berson gyflwr iechyd meddwl ac yn gwybod i ble y gallant fynd i gael cymorth.

Mae'r cwrs hwn yn ymdrin â'r pynciau canlynol:
– Beth yw Cymorth Cyntaf ar gyfer Iechyd Meddwl
– Adnabod cyflyrau iechyd meddwl
– Rhoi cyngor a dechrau sgwrs
– Cynllun gweithredu Cymorth Cyntaf ar gyfer Iechyd Meddwl
– Cymorth Cyntaf ar gyfer Iechyd Meddwl yn y gweithle
– Straen, pryder, iselder a hunanladdiad
– Anhwylderau bwyta
– Seicosis
– Anhwylder personoliaeth
– Sgitsoffrenia
– Hunan-niweidio
– Cyffuriau ac alcohol
– PTSD
– Anhwylder deubegwn

## Gofynion Mynediad

Mae'r cymhwyster hwn ar gael i ddysgwyr 18 oed neu hyn. Rhaid i ddysgwyr feddu ar y sgiliau llythrennedd i allu darllen a hunanddysgu'r llawlyfr cyfeirio ac adnoddau ychwanegol.

Bydd angen mynediad i gyfrifiadur gyda chysylltiad rhyngrwyd ar y dysgwr er mwyn cael mynediad i'r adnoddau dysgu o bell a chyfathrebu â'r Hyfforddwr/Aseswr.

## Rhagolygon Gyrfa

Mae'r cwrs hwn yn addas ar gyfer hyfforddwyr, aseswyr a goruchwylwyr sydd am ddod yn ymwybodol o gymorth cyntaf iechyd meddwl yn y gweithle.

## Modiwlau'r cwrs

Mae cyllid ar gael ar gyfer y cwrs hwn, cysylltwch â ni i gael gwybod mwy

## Asesiad

Asesir y cymhwyster trwy drafodaeth broffesiynol gyda'r Hyfforddwr/Aseswr a cheir tystiolaeth ohono gan alwad fideo wedi'i recordio.

### DULL ASTUDIO

OL

### LLEOLIAD

### HYD Y CWRS

1D